
# ROBERT MAPPLETHORPE

PECYN ADNODDAU AR GYFER
ATHRAWON AC ADDYSGWYR

ARTIST ROOMS

CEFNOGWYD GAN

ArtFund



TATE

NATIONAL GALLERIES SCOTLAND

# YNGLŶN Â'R PECYN HWN

Ystyrir Robert Mapplethorpe fel un o artistiaid pwysicaf y byd yn yr ugeinfed ganrif hwyr. Mae'r grŵp o ffotograffau yn YSTAFELLOEDD ARTIST yn un o'r casgliadau gorau yn y byd. Mae'n cynnwys astudiaethau o flodau, portreadau o lawer o artistiaid, ysgrifenwyr a cherddorion mwyaf dylanwadol y cyfnod, yn cynnwys Andy Warhol, Truman Capote a Patti Smith, ac hunan-bortreadau eiconig. Ceir casgliadau sylweddol eraill yn UDA yn Amgueddfa Guggenheim, Amgueddfa Getty a Sefydliad Ymchwil Getty mewn partneriaeth ag Amgueddfa Gelf Sirol Los Angeles a chasgliad Amgueddfa Hessel yn Bard College. Ceir hefyd gasgliad preifat arwyddocaol yn Norwy.

Bwriad y pecyn hwn yw i gynorthwyo athrawon ac addysgwyr sy'n defnyddio casgliad Robert Mapplethorpe YSTAFELLOEDD ARTIST gyda grwpiau o bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau a phrosiectiau addysgiadol cysylltiedig. Mae'r pecyn yn ffocysu ar waith a themâu penodol ac yn awgrymu meysydd o drafodaeth, gweithgareddau a dolenni i ddarnau eraill o waith ar dudalennau casgliadau YSTAFELLOEDD ARTIST ar-lein.

O safbwynt ysgolion, mae gwaith Robert Mapplethorpe yn cyflwyno cyfle da i ymestyn dysgu ar draws y maes llafur. Gellir cysylltu'r themâu yng ngwaith Mapplethorpe i feysydd megis y Celfyddydau Mynegiannol, Iechyd a Lles, Addysg Grefyddol a Moesol, Astudiaethau Cymdeithasol, Dinasyddiaeth a Mathemateg.

**Mae'r rhestr termau yng nghefn y pecyn yn rhoi rhagor o wybodaeth ynglŷn â geiriau allweddol, termau a phobl sy'n gysylltiedig â Mapplethorpe a themâu perthnasol.**

Delwedd y clawr: Robert Mapplethorpe Ken Moody 1983
© Sefydliad Robert Mapplethorpe. Defnyddir trwy ganiatâd.

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Beth yw YSTAFELLOEDD ARTIST? | 03 |
| Robert Mapplethorpe | 04 |
| 1. ROBERT MAPPLETHORPE A PATTI SMITH: ARTIST AC AWEN | 07 |
| 2. PLANT | 10 |
| 3. PORTREADAU: ARTISTIAID AC ENWOGION | 12 |
| 4. Y CORFF A CHERFLUNWAITH | 14 |
| 5. HUNAN BORTREADAETH: HUNANIAETH A MARWOLDEB | 17 |
| 6. CYDBWYSEDD AC UNOLIAETH | 20 |
| 7. SENSORIAETH A RHYDDID MYNEGIANT | 21 |
| Crynodeb | 22 |
| Rhestr Termau | 23 |
| Ffeindiwch allan rhagor | 27 |

# BETH YW YSTAFELLOEDD ARTIST?

Casgliad o gelf gyfoes ryngwladol yw YSTAFELLOEDD ARTIST, a grewyd trwy un o'r rhoddion mwyaf sylweddol a dyfeisgar o waith celf a gyfranwyd at amgueddfeydd ym Mhrydain erioed. Cyfranwyd y rhodd gan Anthony d'Offay, gyda chefnogaeth Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, y Gronfa Gelf a'r Llywodraethau Albanaidd a Phrydeinig yn 2008.

Perchnogir a rheolir YSTAFELLOEDD ARTIST ar y cyd gan Tate ac Orielau Cenedlaethol yr Alban ar ran y genedl ac mae'n cynnwys dros 1100 o weithiau celf. Mae'r casgliad ar ffurf cyrff sylweddol o waith gan artistiaid sy'n cynnwys Diane Arbus, Joseph Beuys, Vija Celmins, a Damien Hirst. Syniad sylfaenol YSTAFELLOEDD ARTIST yw i ddangos gwaith artistiaid unigol mewn arddangosiadau monograffig, un-pwrpas.

Gweledigaeth Anthony d'Offay ar gyfer YSTAFELLOEDD ARTIST yw y dylai gweithiau celf mawrion fod ar gael i gynulleidfaoedd ledled y wlad, ac yn arbennig i bobl ifanc. Datblygodd y syniad hwn yn sgil darganfyddiad Anthony ei hun o'r byd celf fel plentyn yng Nghaerlŷr ac fel myfyriwr ym Mhrifysgol Caeredin, profiadau a fu'n siapio'i fywyd. Mae Anthony yn Guradur Ex-Officio o YSTAFELLOEDD ARTIST.

Mae'r casgliad ar gael i orielau ac amgueddfeydd rhanbarthol ("Cydymgymerwyr") trwy gydol y DU, yn cynnig adnoddau sydd heb eu tebyg o'r blaen gyda ffocws penodol ar ysbrydoli cynulleidaoedd ifanc.

Dyma'r tro cyntaf i gasgliad cenedlaethol gael ei rannu a'i ddangos ar yr un pryd ar draws y DU a 'doedd hyn ond yn bosibl yn sgil haelioni eithriadol y Gronfa Gelf – yr elusen sy'n codi arian ar gyfer cefnogi gwaith celf.

# ROBERT MAPPLETHORPE

Ganwyd Robert Mapplethorpe ym 1946 yn Queens, Efrog Newydd i Joan a Harry Mapplethorpe. Ef oedd y trydydd o chwech o blant a chafodd ei fagu mewn amgylchedd Catholig llym. Tra'n astudio yn yr ysgol uwchradd dangosodd sgiliau fel dyluniwr.

Yn un ar bymtheg oed ym 1963, cofrestrodd Mapplethorpe yn Institiwt Pratt yn Brooklyn gerllaw, lle astudiodd arlunio, paentio a cherflunwaith. Yn cael ei ddylanwadu gan amrediad o artistiaid yn cynnwys yr artist cydosodiad Joseph Cornell a'r artist dada Marcel Duchamp, bu hefyd yn arbrofi gyda gwahanol ddeunyddiau mewn collage cyfrwng-cymysg, gan gynnwys delweddau a dorrwyd allan o lyfrau a chylchgronau. Ym 1970 bu ef a Patti Smith, y bu'n cyfarfod â hi dair blynedd yn gynharach, yn symud i fewn i'r Gwesty Chelsea. Cafodd afael ar gamera Polaroid y flwyddyn honno a dechreuodd gynhyrchu ei ffotograffau ei hun i gynnwys yn ei waith collage.

Cafodd Mapplethorpe foddhad mawr wrth gymryd ffotograffau Polaroid yn eu rhinwedd eu hunain ac ym 1973 cynhaliwyd ei arddangosfa solo gyntaf yn arddangos lluniau polaroid yn y Light Gallery yn ninas Efrog Newydd. Dwy flynedd yn ddiweddarach cafodd gamera fformat cymhedrol Hasselblad a dechreuodd gymryd ffotograffau o'i ffrindiau a'i gydnabod – artistiaid, cerddorion, ffigyrau amlwg mewn cymdeithas, sêr ffilmiau pornograffaidd, ac aelodau is-ddaear Efrog Newydd.



Robert Mapplethorpe *Self Portrait* 1980
© Sefydliad Robert Mapplethorpe. Defnyddir trwy ganiatâd.

Gweithiodd hefyd ar brosiectau masnachol, gan greu clawr albwm ar gyfer Patti Smith a'r band Television a chyfres o bortreadau a lluniau parti ar gyfer *Interview* Magazine.

Yn y 70au hwyr, ymddiddorodd Mapplethorpe mwy a mwy mewn dogfennu'r sîn S&M (sado masochistiaeth) yn Efrog Newydd. Mae'r ffotograffau a ddilynodd yn frawychus am eu cynnwys ac yn rhyfeddol am eu meistrolaeth dechnegol a ffurfiol. Yn hwyr ym 1988, dywedodd Mapplethorpe wrth *ARTnews*, "Nid wyf yn hoffi'r gair hwnnw 'arswydus.' 'Rwy'n edrych am yr annisgwyl. 'Rwy'n edrych am bethau nad wyf wedi eu gweld o'r blaen … 'roeddwn mewn sefyllfa i gymryd y lluniau hynny. Teimlais orfodaeth i'w creu." Yn y cyfamser aeth ei yrfa o nerth i nerth. Ym

1977, cymerodd ran yn Documenta 6 yn Kassel, Gorllewin yr Almaen ac ym 1978, penodwyd Oriel Robert Miller yn ninas Efrog Newydd yn ddeliwr neilltuedig iddo.

Bu i Mapplethorpe gyfarfod â Lisa Lyon, y Bencampwraig Ddatblygu Corff gyntaf yn y Byd, ym1980. Dros y blynyddoedd nesaf buont yn cydweithio ar gyfres o bortreadau ac astudiaethau ffigwr, ffilm, a'r llyfr *Lady: Lisa Lyon*. Trwy gydol yr 80au, cynhyrchodd Mapplethorpe nifer o ddelweddau a fu, ar yr un pryd, yn herio ac yn cadw at safonau esthetaidd clasurol gan gynnwys cyfansoddiadau arddulliedig o ddynion a merched noeth, lluniau bywyd llonydd cywrain o flodau, a phortreadau stiwdio o artistiaid ac enwogion. Bu'n cyflwyno ac yn perffeithio gwahanol dechnegau a fformatiau.

Ym1986 treuliodd gyfnod yn yr ysbyty gyda niwmonia ac yn ystod y driniaeth canfuwyd bod AIDS arno. Er gwaethaf ei salwch, cyflymodd ei ymdrechion creadigol, ehangodd faes ei ymchwiliad ffotograffig a derbyniodd gomisiynau oedd yn fwy ac yn fwy heriol. Bu Amgueddfa Gelf Americanaidd Whitney yn cyflwyno ei arddangosfa ôl-syllol sylweddol gyntaf ym1988, blwyddyn cyn iddo farw ym 1989.

Mae ei gorff o waith anferthol, pryfoclyd a phŵerus wedi ei sefydlu fel un o artistiaid pwysicaf yr ugeinfed ganrif. Heddiw cynrychiolir Mapplethorpe gan orielau yng Ngogledd a De America ac Ewrop a gellir dod o hyd i'w waith mewn casgliadau amgueddfeydd blaenllaw ledled y byd. Y tu hwnt i arwyddocâd celf-hanesyddol a chymdeithasol ei waith, mae ei etifeddiaeth yn byw ymlaen trwy waith Sefydliad Robert Mapplethorpe. Sefydlodd y Mudiad hwnnw ym 1988 i hyrwyddo ffotograffiaeth, i gefnogi amgueddfeydd sy'n arddangos celf ffotograffig, ac i ariannu ymchwil meddygol yn y frwydr yn erbyn AIDS ac heintiau sy'n gysylltiedig ag HIV.



Robert Mapplethorpe *Patti Smith* 1979
© Sefydliad Robert Mapplethorpe. Defnyddir trwy ganiatâd.

# ROBERT MAPPLETHORPE A PATTI SMITH: ARTIST AC AWEN

'Roedd gan Patti Smith a Robert Mapplethorpe berthynas unigryw: 'roeddent yn gyfeillion, yn gariadon, yn gydweithredwyr artistig ac yn eneidiau hoff. Bu i Mapplethorpe a Smith gyfarfod ym 1967 ac yn fuan 'roeddent yn gariadon; buont yn byw efo'i gilydd am yr ychydig o flynyddoedd nesaf. Cafodd y blynyddoedd y buont yn treulio efo'i gilydd ddylanwad mawr ar eu datblygiad artistig; wrth i Mapplethorpe ddatblygu yn y 1970au canol fel artist llwyddiannus, cafodd Smith lwyddiant ar yr un pryd fel bardd a cherddor, mewn cysylltiad â'r genre cerddoriaeth pync.

Cafodd Smith ei ffotograffu lawer tro gan Mapplethorpe a hi oedd un o'i eisteddwyr mwyaf cyson. Cafodd ei ffotograffu ar gyfer clawr *Witt*, ei chyfrol o farddoniaeth ym 1973, a'i halbwm *Horses* ym 1975. Aeth *Horses* ymlaen i gyflawni statws eiconig ym myd cerddoriaeth pop gan ddiffinio steil androgynaidd a digyfaddawd Smith – gwelir ffotograff o'r un sesiwn yn y casgliad YSTAFELLOEDD ARTIST, *Patti Smith* 1975. Yn cael ei ffotograffu yma gyda'i breichiau a'i gwefusau'n agored, mae un llaw, yn awgrymog, yn dal tei sydd hefyd o gwmpas ei gwddf wrth iddi bwyso yn erbyn wal. Mae Mapplethorpe yn ei ffotograffu, fel y mae Smith yn disgrifio, 'ar ei mwyaf hyderus'. Mae ei safiad ar yr un pryd yn fregus ac yn gyfwynebiadol.

Erbyn y 1970au hwyr 'roedd Smith wedi cyflawni llwyddiant masnachol a beirniadol. Byddai Mapplethorpe yn ei ffotograffu hi eto ar gyfer ei phedwerydd albwm *Waves* ym1979, yn yr un stiwdio a ddefnyddiwyd ar gyfer clawr *Horses*. Hwn oedd albwm olaf Smith cyn bwlch o naw mlynedd yn ei gyrfa recordio a pherfformio. 'Roedd Smith, oedd wedi cyfarfod a syrthio mewn cariad gyda'r cerddor Americanaidd Fred 'Sonic' Smith, yn barod i ffocysu ar fywyd teuluol ac 'roedd *Waves* yn adlewyrchu synnwyr newydd o dawelwch, dengarwch a diffuantrwydd. Mae Mapplethorpe wedi medru cyfleu hyn yn y ddelwedd *Patti Smith* 1979 ar gyfer clawr yr albwm. Ymddengys Smith, gydag edrychiad treiddgar, braidd yn dawedog; mae ffabrig golau ei ffrog, y goeden sy'n cuddio rhan o'r corff a'r colommenod sy'n gorffws ar ei dwy law yn rhoi i'r ddelwedd deimlad digyffro, arcadaidd bron.

Bu Patti Smith yn dychwelyd at recordio gyda'r albwm *Dream of Life* ym 1988, ac eto, bu Mapplethorpe yn ei ffotograffu ar gyfer y clawr. Bu Smith hefyd yn cyfrannu tuag at un o brosiectau olaf Mapplethorpe, *Flowers*, llyfr o'i astudiaethau blodau, gyda rhagair a ryddhawyd ychydig o fisoedd ar ôl ei farwolaeth.

## Trafodaeth

Yn ysgrifennu ar gyfer cylchgrawn *Time* yn 2011 dywedodd Patti Smith am Robert Mapplethorpe: 'Fi oedd ei fodel cyntaf, ffaith sy'n fy llenwi gyda balchder. Mae'r ffotograffau a gymerodd ohonof i yn cynnwys dyfnder o serch ac ymddiriedaeth rhwng y naill a'r llall na fedrir ei wahanu oddi wrth y ddelwedd. Mae ei waith yn mawrhau ei gariad tuag at ei wrthrych a'i obsesiwn gyda golau. Felly, fel un sydd wedi sefyll o flaen camera llawer o artistiaid a ffrindiau, gallaf ond cynghori ffotograffydd i garu ei wrthrych, ac os nad yw hynny'n bosibl, i garu'r golau o'i gwmpas.' Pa rôl yw'r awen yn chwarae yng ngwaith yr artist? Yn eich barn chi sut mae lefel yr agosrwydd a rennir rhwng artist a'i wrthrych yn effeithio ar y gwaith?

## Gweithgaredd

Mae Mapplethorpe yn creu teimlad arcadaidd ar gyfer clawr *Waves* Patti Smith, efallai'n adlewyrchu'r cyfnod hwn o'i bywyd. Ceisiwch bortreadu rhywun agos atoch chi, neu rywun yr ydych yn ei edmygu, mewn modd sy'n adlewyrchu sut 'rydych yn teimlo amdanynt. Dewiswch gyfrwng y credwch fyddai mwyaf addas e.e. darn o ysgrifennu, collage, cerflunwaith etc.

## Dolenni Artistiaid

'Roedd gan Andy Warhol fwy nag un awen gydol ei fywyd, yr un fwyaf enwog oedd Edie Sedgwick (1943-71). 'Roedd Grace Jones (g. 1948) hefyd yn awen i Warhol. Ffeindiwch allan rhagor am Andy Warhol: www.nationalgalleries.org/artistrooms



Robert Mapplethorpe *Lindsay Key* 1985
© Sefydliad Robert Mapplethorpe. Defnyddir trwy ganiatâd.

# PLANT

Cymerodd Mapplethorpe nifer o ffotograffau o blant yn ystod ei yrfa. Weithiau 'roedd y ffotograffau hyn yn gomisiynau preifat ac 'roeddynt rhan fwyaf yn blant i ffrindiau a ffigyrau cymdeithasol. Mewn cyferbyniad i'w bortreadau hynod ffurfiol o oedolion, mae ei ddelweddau o blant yn pwysleisio eu diniweidrwydd , eu diffyg hunan-ymwybyddiaeth a synnwyr o chwaraegarwch. Teimlodd Mapplethorpe yn gryf y dylai cael caniatâd ei wrthrychau a dywedodd un tro mai plant oedd y gwrthrychau mwyaf anodd i'w ffotograffu: 'Ni allwch eu rheoli. 'Dydyn' nhw byth yn gwneud yr hyn 'rydych am iddynt wneud.'

Yn y gwaith *Lindsay Key* 1985, mae'r gwrthrych yn edrych i ffwrdd oddi wrth y camera, efallai er mwyn symud ei hwyneb rhag chwythiad o wynt; mae ei gwallt a'i ffrog yn cael eu dal yn yr awel, mae ei safiad a'i thraed noeth yn uchelbwyntio ei natur chwareus. Mae safiad Lindsay yn wrth-safiad naturiol a ddisgrifir hefyd fel 'contrapposto' sy'n rhoi golwg ymlaciol i 'r gwrthrych.

Yn wahanol i lawer o'i waith o'r cyfnod hwn, mae Mapplethorpe yn ffotograffu ei wrthrych y tu allan i'r stiwdio. Mae'r cysgodion a deflir gan y gwrthrych yn creu cyferbyniad cryf yn erbyn ei ffrog wen tra bod y coed yn taflu siapiau haniaethol yn y cefndir. Tra bod Lindsay yn cyfleu elfen o ddiniweidrwydd mae'n ymddangos mwy fel oedolyn bychan na phlentyn; ymddengys yn hyderus, yn ddigynnwrf ac yn ddwys.

Yn hanesyddol mae plant wedi cael eu portreadu mewn gwaith celf. Yn ystod y Dadeni, bu Raphael a Bellini ymysg eraill yn cyfleu plant yn aml mewn cysylltiad â themâu Cristnogol. 'Roedd yr oes Fictoraidd yn gyfnod arbennig o gyfoethog; 'roedd y cynnydd mewn portreadu plant yn cydfynd â datblygiad y cysyniad o blentyndod – bu newid mewn agweddau yn creu'r disgwyliad y dylai bywyd plentyn fod yn un o ddiniweidrwydd a dibyniaeth. Yn ystod y cyfnod hwn bu artistiaid megis John Everett Millais yn cynhyrchu nifer o baentiadau holl-bwysig o blant. Ar yr un pryd bu gwaith y ffotograffydd Julia Margaret Cameron, a ysbrydolwyd gan y Dadeni, yn portreadu plant fel cysegredig a'r ymgorfforiad o ddiniweidrwydd. Cyfeiriodd Mapplethorpe at Cameron fel un o'i brif ddylanwadau. Tra eu bod yn rhannu portreadaeth a darluniadau o ddiniweidrwydd, gellir dweud bod gwaith Cameron yn fwy mynegiannol yn emosiynol na gwaith Mapplethorpe.

**Trafodaeth**

Mae ffotograffau Mapplethorpe o blant wedi bod yn ddadleuol o bryd i'w gilydd oherwydd y cwestiwn o ganiatâd y gwrthrych ac yng nghyd-destun gwaith ehangach Mapplethorpe. Mae ffotograffau eraill yn y casgliad YSTAFELLOEDD ARTIST yn cynnwys *Honey* 1976 ac *Eva Amurri* 1988. Paham y gall portreadu plentyn neu weithio gyda phlentyn godi cwestiynau ethegol? Beth yw'r gwahaniaeth rhwng gweithio gydag oedolyn a phlentyn fel model? Beth sydd 'na yn y ddelwedd hon a delweddau eraill o blant gan Mapplethorpe sy'n cyfleu diniweidrwydd?

**Gweithgaredd**

Cysylltir y safiad contrapposto yn bennaf gyda cherflunwaith Groegaidd hynafol a'r Dadeni megis *David* gan Michelangelo 1504. Mae defnydd y gwrthrych o'r safiad yma, ynghyd â symudiad amlwg ei llaw chwith a'r droed dde, yn ymestyn y cyfeiriad at gerfluniaeth yng ngwaith Mapplethorpe. Ffeindiwch enghreifftiau eraill o'r safiad contrapposto mewn cerfluniau a delweddaeth weledol sy'n lleol i chi. Datblygwch naratif o gwmpas y gwahanol wrthrychau ar gyfer stori fer neu ddelweddaeth weledol.

**Dolenni Artistiaid**

Bu Diane Arbus hefyd yn ffotograffu plant ond yn ei phortreadau hi ymddangosodd y gwrthrychau ifanc yn aml yn anesmwyth neu'n fregus. Ffeindiwch allan rhagor am Diane Arbus: www.nationalgalleries.org/artistrooms

# PORTREADAU: ARTISTIAID AC ENWOGION

Portreadaeth oedd un o brif ffocysau gwaith Mapplethorpe ac yn ystod ei oes cyhoeddodd lyfrau a ganolbwyntiodd ar bortreadaeth, yn cynnwys *Lady: Lisa Lyon* 1983, *Certain People: A Book of Portraits* 1985, *50 New York Artists* 1986, mewn cydweithrediad â Richard Marshall, a *Some Women* 1989. Bu ei wrthrychau yn cynnwys unigolion o gyd-destunau diwylliannol a chymdeithasol eang: yn amrywio o'r teulu brenhinol ac aristocratiaeth i rentlanciau, ond 'roedd cyfran helaeth o'i bortreadau o'r 1980au yn nodweddu ffigyrau blaenllaw, llawer ohonynt ym maes y celfyddydau.



Robert Mapplethorpe *Grace Jones* 1984
© Sefydliad Robert Mapplethorpe. Defnyddir trwy ganiatâd.

Gellir ystyried ei bortreadau fel adlewyrchiad o 'sîn diwylliannol' Efrog Newydd trwy gydol y 1980au a gwelir steil penodol Mapplethorpe ym mhob delwedd – ei ddiddordeb dyfal mewn prydferthwch lle na chaniateir amherffeithrwydd. Ymddengys nad yw'r gwaith yn diffinio persona y gwrthrych ond yn hytrach yn cadarnhau gweledigaeth Mapplethorpe, sy'n caniatau portreadau o'r modelau sy'n adlewyrchu eu hunain mwyaf perffaith. Mae'r critig a'r curadur Janet Kardon yn disgrifio gwrthrychau portreadaeth Mapplethorpe fel 'ymgnawdoliad o'i weledigaeth'.

Ym 1984 bu Mapplethorpe yn ffotograffu Grace Jones, y gantores, cyfansoddwraig, model ac actores Jamaicaidd-Americanaidd, oedd yn enwog am ei golwg androgynaidd a'i hymddygiad pryfoclyd. 'Roedd Jones yn ffigwr amlwg yn y sîn celf a chymdeithasol yn Efrog Newydd yn y 1980au, yn artist recordio llwyddiannus, actores ffilm ac weithiau'n awen i'r artist Andy Warhol.

Yn *Grace Jones* 1985 gan Mapplethorpe, mae corff Jones wedi'i addurno mewn paent corff gan yr artist Keith Haring ar gyfer ei pherfformiad yn Paradise Garage, clwb dawnsio amgen yn ninas Efrog Newydd. Cyflwynwyd Keith Haring i Grace Jones gan Andy Warhol a threfnodd Warhol i Jones gael ei ffotograffu gan Mapplethorpe cyn y perfformiad. Er y gellir ystyried y ddelwedd fel gwaith ar y cyd, mae'n gwbl nodweddiadol o waith Mapplethorpe; portreadir y gwrthrych o'r tu blaen, yn llenwi paramedrau'r lens mewn cymesuredd llawn.

Mae gan Jones gorff sydd wedi'i lunio'n berffaith ac yn aml ymgymerodd â phersonâu gwrywaidd yn ei pherfformiadau, gan herio cynrychioliadau o'r corff benywaidd. Mae hi'n meddiannu'r safle prif-ffrwd a'r avant-garde o fewn cymdeithas a thrawsffurfiodd ei chorff yn safle pŵer. Nodweddwyd ail ffotograff o'r sesiwn hwn yn llyfr Mapplethorpe, *Certain People: A Book of Portraits*.

### Trafodaeth

Deilliodd diddordeb Mapplethorpe mewn portreadaeth o'i ddiddordeb ym mhrydferthwch y ffurf ddynol. Mae gan lawer o'i waith nodweddion cerfluniol a chlasurol cryfion. Beth mae Janet Kardon yn golygu pan mae'n disgrifio gwrthrychau portreadau Mapplethorpe fel 'ymgnawdoliad o'i weledigaeth'? A ydych yn meddwl bod y bersonoliaeth sy'n cael ei ffotograffu yn berthnasol i'r ddelwedd ac i Mapplethorpe? Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y gwrthrych a'r eisteddwr?

### Gweithgaredd

Awgrymir yn aml bod gwrthrychau Mapplethorpe yn cyfleu sîn diwylliannol penodol gyda ffigyrau megis Andy Warhol, Marianne Faithful a Grace Jones. Crewch collage sy'n nodweddu ffigyrau sy'n rhan o sîn cyffelyb heddiw.

### Dolenni Artistiaid

Mae Alex Katz yn aml yn paentio teulu a ffrindiau. Ffeindiwch allan rhagor am Alex Katz:
www.nationalgalleries.org/artistrooms
and www.tate.org/artistrooms

# Y CORFF A CHERFLUNWAITH

Dywedodd Robert Mapplethorpe ei fod yn edrych am 'berffeithrwydd mewn ffurf' yn ei holl wrthrychau, yn amrywio o noethluniau a phortreadau i flodau a phensaernïaeth. Amlygir y perffeithrwydd hwn yn ei astudiaethau enwog o'r ffigwr dynol; bu ei eisteddwyr yn cynnwys modelau duon, dawnswyr a datblygwyr cyrff, y cyfan gyda chyrff cyhyrog wedi eu diffinio'n dda. Mae'r cyrff pŵerus hyn yn atgoffa un am gerflunwaith Groegaidd clasurol a reolir gan reoliadau cymesuredd a geometreg.

Ym 1980 bu Robert Mapplethorpe yn cyfarfod â Lisa Lyon, y Bencampwraig Ddatblygu Corff gyntaf yn y Byd. Buont yn cydweithio nifer o weithiau dros yr ychydig o flynyddoedd nesaf yn creu gwahanol bortreadau ac astudiaethau ffigwr gan gynnwys delweddau o gyrff cyflawn a thameidiog. Arweiniodd y gyfres hon o weithiau ar y cyd, pryd yr ymgymerodd Lyon â nifer o weddau a 'mathau' o fenywod, at y llyfr L*ady: Lisa Lyon* 1983.

Yn ystod yr un cyfnod â'i waith ar y cyd gyda Lisa Lyon, 'roedd Mapplethorpe hefyd yn ffotograffu'r ffigwr gwrywaidd. 'Roedd ffigyrau gwrywaidd Mapplethorpe yn aml yn ddynion duon athletaidd oherwydd, fel y dywedodd ei fywgraffydd Patricia Morrisroe, ''roedd yn medru tynnu cyfoeth eithriadol allan o liw eu croen'. Cynhyrchodd lyfr o ffotograffau o ddynion duon yn unig, *Black Book* 1986. 'Roedd yr astudiaethau yn cynnwys delweddau o gyrff tameidiog megis torso, braich estynedig, penolau a chluniau. Dywedodd Mapplethorpe un tro ''Rwy'n canolbwyntio ar y rhan o'r corff sydd yn fy marn i y rhan fwyaf perffaith yn y model arbennig hwnnw'.

Ymysg eisteddwyr duon Mapplethorpe oedd y mabolgampwr a model Ken Moody a'r dawnsiwr Derrick Cross – bu ef yn eu ffotograffu llawer tro. Yn y darn *Derrick Cross* 1983 mae craidd y corff yn llenwi'r ffrâm. Mae bwa'r corff yn awgrymu symudiad tra bod y ffabrig o gwmpas canol y corff yn cynyddu'r synnwyr o berfformiad a cherflunwaith. Mae symudiad y torso yn addurno diffiniad y cyhyrau, yn pwysleisio'r corfforoldeb a'r teimlad o gryfder.

Mae gwerthusiad gwaith Mapplethorpe mewn cysylltiad â'r hen feistri a'r Dadeni wedi ffocysu ar ei waith ffiguraidd a bywyd llonydd. Bu arddangosfeydd sylweddol diweddar yn cynnwys Robert Mapplethorpe and the *Classical Tradition* 2005, yn Amgueddfa Guggenheim, Efrog Newydd, a *Mapplethorpe: Perfection in Form* 2009 yn y Galleria dell'Accademia yn Florence, yr Eidal. Mae'r Galleria dell'Accademia yn gartref i gampweithiau gwych y Dadeni megis *David* gan Michelangelo 1504 – dangoswyd gwaith Mapplethorpe ochr yn ochr â'r gweithiau hyn.



Robert Mapplethorpe *Derrick Cross* 1983
© Sefydliad Robert Mapplethorpe. Defnyddir trwy ganiatâd.

## Trafodaeth

Yn ysgrifennu yn y cyflwyniad i *Lady: Lisa Lyon*, dywedodd yr ysgrifennwr Prydeinig Bruce Chatwin fod gan Mapplethorpe 'lygad y cerfluniwr clasurol sy'n chwilio am ddelfryd'. Mae ffotograffau Mapplethorpe o Lyon yn archwilio paramedrau a chyfyngiadau cenedl; fe'i hedmygir dim am ei chenedl ond am ei chryfder a'i phrydferthwch corfforol. Dywedodd Mapplethorpe fod 'ffotograffiaeth yn ffordd wych o greu cerflunwaith'. Beth ydych chi'n meddwl yr oedd yn ei olygu trwy ddweud hyn?

## Gweithgaredd

Celf dri-dimensiwn yw cerflunwaith sy'n gysylltiedig â cherfio, modelu, castio neu adeiladu ac eto bu Mapplethorpe yn creu ffotograffau cerfluniol. Ystyriwch ffyrdd y gallwch chi greu eich cerflunwaith dau-ddimensiwn eich hun. Ystyriwch y deunyddiau y gallwch eu defnyddio o fewn cyfyngiadau y darn dau-ddimensiwn.

## Dolenni Artist

Bu Francesca Woodman hefyd yn ffotograffu'r corff dynol lle mae hunaniaeth y gwrthrych weithiau yn aneglur. Ffeindiwch allan rhagor am Francesca Woodman: www.nationalgalleries.org/artistrooms and www.tate.org.uk/artistrooms

# HUNAN BORTREADAETH: HUNANIAETH A MARWOLDEB


Tra bod delweddau o'r corff yn gysylltiedig â delfrydau prydferthwch, cysylltir y portread yn aml gydag hunaniaeth ac unigoliaeth. Yr hunan bortread efallai yw'r agwedd mwyaf cymhleth o'r genre oherwydd mae'n dod â'r artist a'r eisteddwr yn un gydag atyniad dyddiadur personol. Yn hanesyddol mae'r hunan bortread yn gysylltiedig ag hunaniaeth artistig, arbrofi gyda thechnegau ac hunangofiant. Mae hunan bortreadau Mapplethorpe yn cynnwys yr holl elfennau hyn: y polaroids cynnar yw ei arbrofion cyntaf gyda'r hunan bortread a'i archwiliad o ffotograffiaeth; mae ei waith o'r 1970au hwyr i ganol y 1980au yn bwrw golwg ar wahanol bersonâu a syniadau am hunaniaeth, tra bod ei hunan bortreadau hwyrach yn fwy hunangofiannol ac yn ymwneud â chwestiynau bodolaeth.

Mae'r casgliad YSTAFELLOEDD ARTIST yn cynnwys nifer o hunan bortreadau Mapplethorpe lle mae'n ymgymryd â gwahanol bersonâu, gan gynnwys dihiryn gyda chyllell, chwyldröwr, a'r bachgen drwg archdeipaidd. Ymgymerodd hefyd â phersona'r diafol, provocateur rhywiol a thrawswisgwr ymysg eraill. Gellir ystyried yr holl bersonâu hyn yn ffasedau gwahanol o'i hunaniaeth. Mae Susan Sontag, yn ysgrifennu yn y cyflwyniad i'w gyhoeddiad *Certain People: A Book of Portraits* 1985, yn dyfynnu Mapplethorpe yn dweud bod ei hunan bortreadau yn mynegi'r rhan ohono sydd mwyaf hunan-hyderus.

Ar gyfer clawr ei gyhoeddiad *Certain People* dewisodd Mapplethorpe y gwaith *Self Portrait* 1980. Yma mae Mapplethorpe yn portreadu ei hun fel y bachgen drwg archdeipaidd, gyda siaced ledr ddu, crys tywyll a sigarét yn hongian allan o gornel ei geg, sylliad digynnwrf a gwallt yn steil y 1950au. Mae'r ddelwedd yn atgoffa un am James Dean yn *Rebel Without a Cause* 1955 a Marlon Brando yn *The Wild Ones* 1953. Yn nodweddiadol o lawer o'i bortreadau, mae'r safiad o'r tu blaen ac wedi'i gyfansoddi fel bod y geg yn gorwedd reit yng nghanol y ffotograff.

Ym 1986 derbyniodd Robert Mapplethorpe ddiagnosis o AIDS, y syndrom a achoswyd gan HIV. Y pandemig HIV/AIDS oedd un o ddigwyddiadau rhyngwladol mwyaf arwyddocaol yr 1980au ac effeithiodd ar fywydau llawer o gydnabod agos Mapplethorpe. Ar y pryd, nid oedd y rhan fwyaf o'r sawl a gafodd yr afiechyd yn byw am fwy na dwy flynedd. Bu hunan bortreadaeth Mapplethorpe tua diwedd ei oes yn adlewyrchu'r dirywiad yn ei iechyd, ei chwilio am gatharsis a'i farwoldeb.

Yn *Self Portrait* 1988 mae Mapplethorpe yn eistedd yn wynebu'n syth o'i flaen, fel pe bai'n edrych yn uniongyrchol ar farwolaeth. Mae'r ffon gyda phenglog yn ei law dde yn atgyfnerthu'r argraff hon. Mae Mapplethorpe yn gwisgo du, fel bod ei ben yn arnofio'n rhydd, yn ddi-gorff, gyda thywyllwch o'i gwmpas. Mae



Robert Mapplethorpe *Self Portrait* 1988
© Sefydliad Robert Mapplethorpe. Defnyddir trwy ganiatâd.

Mapplethorpe yn ffotograffu ei ben ychydig bach allan o ffocws, efallai i awgrymu ei fod yn darfod yn raddol.

Credodd Robert Mapplethorpe, hyd at ddiwedd ei fywyd, y byddai'n gallu curo AIDS.

## Trafodaeth

Sut mae hunan bortread yn wahanol i bortread safonol? A yw *Self Portrait* 1988 yn wahanol i hunan bortreadau cynharach Mapplethorpe? Pa elfennau o hunangofiant y tynnir arnynt yn y gwaith hwn?

## Gweithgaredd

Crewch fap o syniadau sy'n gysylltiedig â'ch bywyd eich hun a meddyliwch sut y gellir tynnu ar y syniadau hyn i greu eich hunan bortread eich hun. Meddyliwch am y cyfrwng y byddech yn defnyddio – a fyddech yn dewis ffotograffiaeth? Ystyriwch pa mor hunangofiannol yr hoffech i'r portread fod, neu a fyddai'n well gennych ymgymryd â phersona gwahanol?

## Dolenni Artistiaid

Archwilir thema marwoldeb yn aml gan Damien Hirst mewn gweithiau megis *With Dead Head* 1991 ac *Away from the Flock* 1994. Ffeindiwch allan rhagor am Damien Hirst: www.nationalgalleries.org/artistrooms a www.tate.org.uk/artistrooms

# CYDBWYSEDD AC UNOLIAETH

Y tu hwnt i ddelfrydau o'r corff dynol, oedd yn nodweddiadol o waith ffiguraidd Mapplethorpe a cherflunwaith Groegaidd hynafol, 'roedd cydbwysedd ac unoliaeth yn allweddol yng nghyfansoddiadau Mapplethorpe. Yn ei bortread / astudiaeth gorff rannol *Ken Moody* 1983 (gweler y clawr blaen), mae'r eisteddwr yn cael ei ffotograffu'n nodweddiadol o'r tu blaen mewn cymesuredd perffaith gyda'i geg a'i drwyn reit ar ganol y ddelwedd; mae ei ysgwyddau, sy'n llenwi gwaelod y ffrâm, a thop ei ben llyfn yn ffurfio siâp triongl, cyfansoddiad oedd yn cael ei ffafrio mewn llawer o gerfluniau a ffotograffau Mapplethorpe.

Yn nodweddiadol o waith Mapplethorpe, mae Ken Moody, model y bu'n gweithio gydag ef sawl tro, yn cael ei ffotograffu yn ei stiwdio gyda deunydd ffotograffig yn y cefndir er mwyn caniatau ffocws llawn ar y ffigwr yn y tu blaen. Trefnir y goleuo i bwyslesio nodweddion cymesur yr eistedddwr, diffiniad y cyhyrau a strwythur yr esgyrn. Mae llygaid yr eisteddwr ar gau, yn awgrymu bod y gwaith hwn yn fwy cysylltiedig ag astudiaethau corff Mapplethorpe yn hytrach nag un o'i bortreadau.

Cymerwyd y ffotograff *Patti Smith* 1976, fel llawer o ffotograffau Mapplethorpe o Smith, y tu allan i'r stwidio. Wedi'i gymryd tra 'roedd Smith yn byw dros dro mewn fflat yn lofft Mapplethorpe, mae'r ffotograff yn dibynnu ar olau naturiol. Yn edrych yn fyfyriol a braidd yn ansicr, ei chorff mewn ystum ffetysol, mae Smith yn cydio mewn peipen gwresogydd sy'n rhedeg ar hyd y wal. Mae geometregau corff Smith yn uno geometregau'r ystafell ac yn cynyddu persbectif. Mae'r prif echelau'n llorweddol ac yn fertigol, ond yn rhedeg mewn gwrthbwynt i'r rhain yw croeslinellau peipiau'r gwresogydd o dan y ffenestri, a breichiau a choesau Smith.

Er gwaethaf y diffyg stiwdio ac offer goleuo a steilio, mae'r ddelwedd yn gwbl nodweddiadol o waith Mapplethorpe.



Delwedd ar y chwith: Robert Mapplethorpe *Patti Smith* 1976. Delwedd ar y dde: Robert Mapplethorpe *Lowell Smith* 1981 © Sefydliad Robert Mapplethorpe. Defnyddir trwy ganiatâd.

# SENSORIAETH A RHYDDID MYNEGIANT

Daeth Robert Mapplethorpe yn enwog yn y 1970au a'r 1980au am ei noethluniau gwrywaidd a delweddaeth eglur rywiol. Bu'r delweddau hyn yn gwthio ffiniau rhyddid creadigol ac mae ei waith felly yn cymryd lle arwyddocaol yn hanes y frwydr artistig i gyfleu'r byd fel y mae gydag onestrwydd a gwirionedd.



Robert Mapplethorpe *Self Portrait* 1983
© Sefydliad Robert Mapplethorpe. Defnyddir trwy ganiatâd.

Bu ei waith, yn cynnwys ffotograffau o bobl yn cymryd rhan mewn gweithredoedd rhywiol, yn polareiddio rhai bobl ac yn codi cwestiynau ynglyn â sensoriaeth a rhyddid mynegiant. Cyfeiriwyd at ei waith yn eang fel rhan o'r gwrthdaro diwylliannol honedig yn y 1990au cynnar, ynghyd â gwaith ffigyrau blaenllaw eraill yn y byd celf a diwylliant poblogaidd megis y cyfarwyddwr ffilm Martin Scorsese, yr artist gweledol Andres Serrano a'r gantores pop Madonna. Sylwer eu bod i gyd yn dod o gefndir Catholig ac yn cwestiynu'r eglwys trwy eu celf. 'Roedd symbolaeth grefyddol yn amlwg trwy gydol gyrfa Mapplethorpe.

Yn *Self Portrait* 1983 mae Mapplethorpe yn dangos ei hun mewn gwisg ryfel (siaced ledr), yn gosod ei hun fel ffigwr chwyldroadol, reiffl yn ei law, o flaen ei gerflun *Black Star* 1983, sydd ar ffurf ffrâm wedi'i phaentio'n ddu mewn siâp pentagram. Mae'r pentagram arbennig hwn o chwith (un pwynt yn wynebu i lawr) a gellir ei ddehongli felly fel symbol o'r Diafol. Yn ddiweddarach, hoffai Mapplethorpe, a gafodd ei fagu'n Gatholig selog, uniaethu â'r Diafol oherwydd ei ymddygiad 'pechadurus' ei hun. O'r herwydd, daw'n filwr gwrthryfelgar yn brwydro dros achos.

Dywedodd Mapplethorpe un tro 'yr un peth yw prydferthwch a'r Diafol', ac 'roedd ei ddiddordeb yn y Diafol yn amlwg yn ei waith. Cyfeiriodd hefyd at Sant Ffransis o Assisi a San Pedr. Yn y gwaith *Lisa Lyon* 1982 mae'n defnyddio'i wrthrych i greu delw o Grist. Mae'r groes ym symbol a ymddangosodd yng ngwaith Mapplethorpe trwy gydol ei yrfa, ac 'roedd llawer o'i gerfluniau ar siâp croes. Dywedodd un tro ''Rwy'n hoffi ffurf y groes, 'Rwy'n hoffi ei chyfrannau. 'Rwy'n trefnu pethau mewn ffordd Gatholig'.

# CRYNODEB

**Pethau allweddol i feddwl amdanynt:**

*Geiriau Allweddol:*

Neo-glasuriaeth • Noethlun • Diniweidrwydd • Artistiaid • Rhywioldeb • Serch • Marwolaeth • Corff • Pleser • Du & Gwyn • Plentyndod • Blas • Dyhead • Rhyw • Ieuenctid • Enwogrwydd • Diwylliant Poblogaidd • Cerddoriaeth • Erotig • Portreadaeth • Cerflunwaith • Llinellau • Golau • Harddwch • Perffeithrwydd • Athletaidd • Unoliaeth • Cydbwysedd • Sensoriaeth

*Eisteddwyr a Gwrthrychau:*

Hunan • Ffrindiau • Cyrff • Cariadon • Artistiaid • Ysgrifenwyr • Actorion • Datblygwyr corff • Modelau • Dawnswyr • Plant • Cerfluniau • Blodau • Is-ddiwylliannau

*Proses:*

Cerflunwaith • Ffotograffiaeth

*Dolenni i artistiaid eraill mewn casgliadau Cenedlaethol yn Orielau Cenedlaethol yr Alban a Tate:* Andy Warhol, Julia Margaret Cameron, Marcel Duchamp, Salvador Dalì, Auguste Rodin, Man Ray, Antonio Canova

*Dolenni i Fudiadau Celf*

Neo-glasuriaeth, y Dadeni, dullwedd, rococo, baróc, swrrealaeth, dadayddiaeth, ôl-foderniaeth.

# RHESTR TERMAU

**ADONIS**
Llanc ifanc golygus ym mytholeg Roegaidd a garwyd gan Aphrodite. Fe'i laddwyd gan faedd gwyllt a dychwelodd at Aphrodite o Hades.

**AIDS**
Clefyd o'r system heintrydd a achoswyd gan y feirws HIV, yn arwain at farwolaeth yn sgil heintiau nad yw'r corff yn medru eu gwrthod rhagor. Cafodd y clefyd effaith aruthrol ar y gymuned hoyw yn y 1980au a bu farw llawer o ffrindiau a chydnabod Mapplethorpe. Bu farw Mapplethorpe o salwch yn gysyllteidig ag AIDS ym 1989.

**ANDROGYNAIDD**
Yn cyfuno nodweddion gwrywaidd gyda nodweddion benywaidd ac sydd felly o genedl ansicr. Disgrifiwyd modelau benywaidd Mapplethorpe megis Lisa Lyon, Patti Smith a Grace Jones fel androgynaidd yn aml.

**ARCADAIDD**
Yn cyfeirio at weledigaeth o wynfyd bugeiliol a harmoni mewn natur sy'n deillio o ranbarth Groegaidd o'r un enw sy'n adnabyddus am ei wylltineb a'i brydferthwch naturiol. Ystyriwyd bod gan y gwaith *Patti Smith* 1979 deimlad arcadaidd.

**CYDOSODIAD**
Celf a wneir trwy gydosod elfennau gwahanol sydd yn aml yn sborion, weithiau wedi eu prynu'n arbennig. Mae un o ddylanwadau cynnar Mapplethorpe, Joseph Cornell, yn cael ei gysylltu â chelf gydosodiad, ynghyd â'i eisteddwyr Robert Rauschenberg a Louise Nevelson.

**AVANT-GARDE**
Syniadau a dulliau newydd ac arbrofol ym myd celf, cerddoriaeth a llenyddiaeth.

**GIOVANNI BELLINI**
Paentiwr Eidalaidd y Dadeni (c.1430-1516), efallai y mwyaf adnabyddus o'r teulu Bellini o baentwyr Fenisaidd.

**LOUISE BOURGEOIS**
Artist a cherflunwraig Ffrengig-Americanaidd (1911-2010), yn fwyaf adnabyddus am ei chyfraniadau tuag at gelf fodern a chyfoes, ac am ei strwythurau pryf copyn, yn dwyn y teitl *Maman*, a arweiniodd at ei llysenw sef y Ddynes Pry Copyn. Ffotograffwyd Bourgeois gan Mapplethorpe ym 1982.

**MARLON BRANDO**
Actor ffilm Americanaidd (1924-2004) a ddaeth yn enwog yn y 1950au gyda pherfformiadau mewn ffilmiau megis *A Street Car Named Desire* 1951, *On the Waterfront* 1954 a *The Wild Ones* 1953. Yn yr olaf, chwaraeodd rôl Johnny Strabler, arweinydd gang o wrthryfelwyr. Cafodd y ddelweddaeth oedd yn gysylltiedig â'r cymeriad effaith arwyddocaol ar ddiwylliant ieuenctid y cyfnod.

# RHESTR TERMAU

**JULIA MARGARET CAMERON**
Ffotograffydd Prydeinig (1815-79) yn adnabyddus am ei phortreadau o ffigyrau cymdeithasol blaenllaw'r cyfnod.

**TRUMAN CAPOTE**
Awdur Americanaidd ac yn ffigwr amlwg mewn cymdeithas (1924-84) a fu'n wrthrych i Mapplethorpe.

**BRUCE CHATWIN**
Awdur Prydeinig (1940-89) oedd yn wrthrych ac yn gyfaill i Mapplethorpe.

**GWESTY CHELSEA**
Gwesty ym Manhattan yn adnabyddus fel cartref i lawer o artistiaid, ysgrifenwyr a cherddorion Efrog Newydd yn y 1970au a'r 1980au. Bu Mapplethorpe yn byw yng Ngwesty Chelsea yn y 1970au cynnar gyda Patti Smith.

**CONTRAPPOSTO**
Trefniant anghymesur o'r corff dynol lle mae llinellau'r breichiau a'r ysgwyddau yn cyferbynnu, tra'n gwrthbwyso, llinellau'r cluniau a'r coesau. Yr enghraifft enwocaf o contrapposto yw *David* Michelangelo 1504. Mae nifer o eisteddwyr Mapplethorpe yn ymgymryd â safiad contrapposto, gan gynnwys *Lindsay Key* 1985.

**JOSEPH CORNELL**
Artist Americanaidd (1903-72), yn gysylltiedig â chydosodiad, ac yn ddylanwad pwysig ar Mapplethorpe.

**DADAYDDIAETH**
Mudiad yr ugeinfed ganrif gynnar ym myd celf a llenyddiaeth yn seiliedig ar afresymoldeb a negyddiad bwriadol o werthoedd artistig traddodiadol. Mae dylanwadau cynnar Mapplethorpe megis Marcel Duchamp yn gysylltiedig â'r mudiad dada.

**JAMES DEAN**
Eicon diwylliannol a seren ffilm Americanaidd (1931-55) sy'n fwyaf adnabyddus am chwarae'r llanc ifanc trwblus Jim Stark yn *A Rebel Without A Cause* 1955.

**DERRICK CROSS**
Dawnsiwr modern yn Efrog Newydd a fu'n wrthrych i Mapplethorpe llawer tro. Mae ffotograffau Mapplethorpe o Cross yn ffocysu'n aml ar rannau o'r corff megis y torso, braich neu ben-ôl.

**DOCUMENTA**
Arddangosfa o gelf fodern a chyfoes a gynhelir pob pum mlynedd yn Kassel, yr Almaen. Cymerodd Mapplethorpe ran yn Documenta 6, 1977.

**MARCEL DUCHAMP**
Artist Ffrengig (1887-1968), yn gysylltiedig â dada, a oedd yn ddylanwad pwysig ar Mapplethorpe.

**EROS**
Duw serch Groegaidd, yn cyfateb i'r Ciwpid Rhufeinig.

# RHESTR TERMAU

**JOHN EVERETT MILLAIS**
Paentiwr Prydeinig (1829-96) ac un o sefydlwyr y Frawdoliaeth Cyn-Raphaelite.

**MARIANNE FAITHFULL**
Cantores-gyfansoddwraig Brydeinig (g. 1946) a ffotograffwyd mwy nag unwaith gan Mapplethorpe.

**SANT FFRANSIS O ASSISI**
Pregethwr Catholig Eidalaidd uchel iawn ei barch (1181-1225c).

**KEITH HARING**
Artist Americanaidd (1958-90). Cysylltir ei waith yn aml gyda diwylliant stryd Efrog Newydd. 'Roedd Haring yn wrthrych ac yn gyfoeswr i Mapplethorpe.

**HASSELBLAD**
Brand o gamera fformat cymhedrol. Dechreuodd Mapplethorpe ddefnyddio camera Hasselblad ym 1975.

**GRACE JONES**
Cantores, actores a model Americanaidd-Jamaicaidd (g. 1948). Bu Mapplethorpe yn ffotograffu Jones ym 1984 a 1988.

**LISA LYON**
Datblygwraig Corff broffesiynol, y Bencampwraig Ddatblygu Corff gyntaf yn y Byd ym 1979. Cynhyrchodd Mapplethorpe lyfr o'i ffotograffau ohoni: *Lady: Lisa Lyon* 1983.

**MADONNA**
Cantores-gyfansoddwraig Americanaidd (g.1958) yn adnabyddus am ei fideos cerdd a chaneuon oedd yn bryfoclyd yn rhywiol.

**KEN MOODY**
Model, mabolgampwr ac hyfforddwr ffitrwydd. Bu Mapplethorpe yn ffotograffu Moody llawer tro, a nodweddwyd rhai o'r ffotograffau yn ei gyhoeddiad *Black Book* 1986.

**AWEN (MUSE)**
Daw'r gair 'muse' o'r gair Groegaidd mousa sy'n deillio o Mnemosyne, duwies cof a mam y Muses. Ym mytholeg Roegaidd 'roedd Zeus a Mnemosyne yn rhieni i naw duwies, pob un yn cael ei hystyried fel amddiffynwraig celf neu wyddor gwahanol. Defnyddir y gair 'muse' erbyn hyn i gyfeirio at fenyw sy'n ysbrydoli'r artist creadigol. Trwy gydol hanes ysbrydolwyd artistiaid gan feddyliau a chyrff menywod; Victorine Meuren a ysbrydolodd *The Luncheon on the Grass* 1863 ac *Olympia* 1863 gan Édouard Manet ac Edie Sedgwick oedd ysbrydoliaeth fwyaf enwog Andy Warhol, gan chwarae'r prif rolau yn nifer o'i ffilmiau.

**NEO-GLASURIAETH**
Adfywiad steil neu driniaeth glasurol ym myd celf, llenyddiaeth, pensaernïaeth neu gerddoriaeth oedd yn gryf yn Ewrop yng nghanol yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif. Bu Mapplethorpe yn cydnabod dylanwad y neo-glasurol yn ei waith. Mae cyfeiriadau at y paentiwr Ffrengig Jacques-Louis David (1748-1825) yn arbennig o amlwg yng ngwaith Mapplethorpe.

# RHESTR TERMAU

**SAN PEDR**
Arweinydd Cristnogol cynnar ac yn un o ddeuddeg apostol Crist.

**PYNC**
Mudiad ymysg pobl ifanc o ganol i ddiwedd y 1970au, a nodweddwyd gan wrthodiad ffyrnig cymdeithas sefydledig ac a fynegwyd trwy roc pync a gwisgo dillad a steiliau gwallt gwyllt ac ymosodol.

**RAPHAEL**
Paentiwr Eidalaidd (1483-1520) sy'n gysylltiedig â'r Dadeni.

**Y DADENI**
Adfywiad llenyddiaeth a chelf Ewropeaidd o dan ddylanwad modelau clasurol yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r pymthegfed ganrif.

**S&M**
Yn fras, ffurf ar chwarae rôl gorfforol yw sado masochistiaeth – mae'r sawl sy'n cymryd rhan yn cael pleser o dderbyn neu achosi poen a/neu gywilydd.

**SATYR**
Ym mytholeg glasurol, duw y coetir oedd yn gysylltiedig â rhialtwch meddw a chwant. Mewn cynrychioliadau Groegaidd, 'roedd y satyr yn ddyn gyda nodweddion ceffyl, megis clustiau a chynffon ceffyl, ac mewn cynrychioliadau Rhufeinig 'roedd yn ddyn gyda chynffon, coesau a chyrn gafr. Mae Mapplethorpe yn rhoi i'w wrthrychau olwg satyr mewn gweithiau megis *Alan Lynes* 1979 a *Snakeman* 1981.

**MARTIN SCORSESE**
Cyfarwyddwr ffilmAmericanaidd (g. 1942) yn adnabyddus am waith megis *Taxi Driver* 1976 a *Goodfellas* 1990. 'Roedd ei ffilm *The Last Temptation of Christ* wrth wraidd gwrthdaro diwylliannol y 1990au cynnar.

**ANDRES SERRANO**
Artist Americanaidd (g.1950). 'Roedd ei waith dadleuol *Piss, Christ* 1987 yn rhan o wrthdaro diwylliannol y 1990au cynnar.

**PATTI SMITH**
Cantores-gyfansoddwraig Americanaidd, bardd ac artist perfformio, cyfaill agos i Mapplethorpe. Cyfeiriwyd at Smith (g. 1946) weithiau fel barddones pync.

**TELEVISION**
Band roc Americanaidd a ffotograffwyd gan Mapplethorpe ym 1977 ar gyfer clawr eu halbwm *Marquee Moon*.

**ANDY WARHOL**
Artist pop Americanaidd (1928-87) a gafodd ddylanwad sylweddol ar Mapplethorpe ac a nodweddwyd yn ei waith.

# FFEINDIWCH ALLAN RHAGOR

## Gwefannau

Sefydliad Robert Mapplethorpe:
www.mapplethorpe.org

YSTAFELLOEDD ARTIST:
www.tate.org.uk/collection/artistrooms/
a www.nationalgalleries.org/
collection/artistrooms

YSTAFELLOEDD ARTIST Ar Daith gyda'r Gronfa Gelf: ww.artfund.org/artistrooms

Amgueddfa J. Paul Getty:
www.getty.edu/

The Guggenheim:
www.guggenheim.org

Amgueddfa Gelf Sirol Los Angeles:
www.lacma.org

Cheim & Read:
www.cheimread.com/artists/robert-mapplethorpe

Oriel Alison Jacques:
www.alisonjacquesgallery.com/artists/
Robert- Mapplethorpe

## Ffilmiau Ar-lein

YSTAFELLOEDD ARTIST arddangosfa Robert Mapplethorpe yn Amgueddfa Sheffield:
www.tate.org.uk/collection/artistrooms/
artist.do?id=11413

Gwyliwch gyfweliad Arena 1988 Robert Mapplethorpe:
www.dailymotion.com/video/xnhqtv_
robert-mapplethorpearena-1988_creation

Yr holl waith: YSTAFELLOEDD ARTIST Oriel y Tate ac Orielau Cenedlaethol yr Alban. Cafwyd ar y cyd trwy Rodd d'Offay gyda chymorth oddi wrth Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a'r Gronfa Gelf 2008

## Darllen ychwanegol


Robert Mapplethorpe, *Perfection in Form*, Llundain, 2009.

Sylvia Woolf, *Polaroids*, Munich ac Efrog Newydd, 2007.

Arthur C. Danto, *Robert Mapplethorpe*, Llundain, 2007.

Keith Hartley, *Robert Mapplethorpe*, Caeredin, 2006.

Germano Celant, *Mapplethorpe*, yr Eidal, 1992.

Richard Marshall, *Mapplethorpe's Vision*, Efrog Newydd, 1990.

Robert Mapplethorpe a Patti Smith, *Flowers*, Boston, 1990.

Robert Mapplethorpe a Joan Didion, *Some Women*, Boston 1989.

Janet Kardon, *Robert Mapplethorpe*: *The Perfect Moment*, Philadelphia, 1988.

Richard Marshall a Robert Mapplethorpe, *50 New York Artists: A Critical Selection of Painters and Sculptors Working In New York*, San Francisco, 1986.

Robert Mapplethorpe a Ntozake Shange, *Black Book*, Efrog Newydd 1986.

Robert Mapplethorpe a Susan Sontag, *Certain People*: A Book of Portraits, Pasadena, 1985.

Robert Mapplethorpe a Bruce Chatwin, *Lady, Lisa Lyon*, Efrog Newydd, 1983.

Robert Mapplethorpe, *Robert Mapplethorpe*: 1970-1983, Llundain, 1983